**Eitem Agenda Rhif 2(a)**

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Ty Nant, Prestatyn ar ddydd Iau 16eg Hydref 2003 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

### Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr B. Blakeley, S. Drew, M.M. Jones a W. Roberts

### Yn cynrychioli Cyd-Bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych

I. Barros-Curtis ac M.B. Lloyd

### Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

T. Bryer, M. Colbert, Y Parch. P.J. Collinson, H. Ellis, Parch. J. Owen a P. Spiers

## HEFYD YN BRESENNOL

Arolygydd/Ymgynghorydd A.G., Pennaeth Gwasanaethau Addysg a'r Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

M. Evans, Athro Barch. L.J. Francis, S. Harris, J. Hannam a'r Cynghorydd K.N. Hawkins

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes hefyd wedi cyflwyno ei hymddiheuriadau.

## MYFYRDOD TAWEL

Cychwynnodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

### (a) Urddo Cadeirydd Newydd (yr Is-Gadeirydd presennol)

Cymerodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Parchedig J. Owen, y cyfle i ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u hymroddiad yn ystod ei flwyddyn fel cadeirydd a thalodd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar ran SACRE. Yn unol â chyfansoddiad SACRE Sir Ddinbych, penodwyd yr Is-Gadeirydd presennol, y Cynghorydd M.M. Jones, fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod a chyfleodd yr aelodau eu dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Jones ar ei phenodiad. Diolchodd y Cadeirydd i'r Parch Owen am ei waith caled dros y 12 mis a aeth heibio ac fe gymerodd y cyfle hefyd i ddiolch i'r athrawon am eu gwaith da yn darparu Addysg Grefyddol yn ysgolion Sir Ddinbych.

Ar y pwynt hwn, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod cyfansoddiad SACRE yn gofyn am benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd bob blwyddyn. Yn wyneb y ffaith mai dim ond tri cyfarfod SACRE a oedd bob blwyddyn, awgrymodd efallai yr hoffai'r aelodau ystyried newid y cyfansoddiad i ganiatáu i'r penodiadau hyn aros am ddwy flynedd, er mwyn cael mwy o ddilyniant. Cytunodd yr Aelodau gyda'r cynnig hwnnw ac fe ***BENDERFYNWYD*** *YN UNOL Â HYNNY*.

### (b) Penodi Is-Gadeirydd (o blith yr Athrawon-Gynrychiolwyr)

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd o blith yr Athrawon-Gynrychiolwyr. Cynigiwyd ac eiliwyd bod Mrs. M.B. Lloyd yn cael ei phenodi yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod ac o roddi hyn i bleidlais, fe

***BENDERFYNWYD*** *penodi Mrs. M.B. Lloyd yn Is-Gadeirydd ar gyfer y ddwy flynedd i ddod.*

Pan gyrhaeddodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg, cymerodd y Cadeirydd y cyfle i'w groesawu i'r cyfarfod a phwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd bod cynrychiolydd o Adran Addysg Sir Ddinbych yn bresennol ym mhob cyfarfod SACRE.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Gorffennaf 2003 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) fel a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 23ain Medi 2003.

**Materion yn Codi**

Eitem Rhif 2 – Cofnodion: Eitem Rhif 577 – Dosbarthodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gopïau o ddarn o'r llawlyfr a gyflwynwyd i arolygwyr cofrestredig ar gyd-destun adroddiadau archwilio ar gyfer ysgolion. Mewn ymateb i bryderon SACRE ar anghysondebau yng nghynnwys a chwblhau adroddiadau, roedd AEM Paul Morgan wedi cynghori bod adroddiadau archwilio yn cael eu monitro a bod unrhyw feysydd lle'r oedd arolygwyr yn gwyro o'r drefn yn cael eu tanlinellu.

Eitem Rhif 2 – Cofnodion: Eitem Rhif 1103 – Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod eisiau trafod Fforwm Ffydd Pobl Ifanc gyda'r Penaethiaid Adrannau cyn trefnu cyfarfod gyda Garth Thomas, Swyddog Ieuenctid Sir Ddinbych ar y pwnc.

Eitem Rhif 3 – "Christianity Experienced" – Dyddiau Disgyblion Eglwys Gadeiriol Llanelwy – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S. Drew ar ddefnyddio ffotograffau o'r dyddiau disgyblion, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai'r ffotograffau yn cael eu cynnwys fel rhan o'r pecyn TGCh a oedd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer ysgolion. Awgrymodd bod y deunydd cyflwyno a dderbyniwyd gan aelodau hefyd yn cael ei gynnwys.

Eitem Rhif 5(b) - ESTYN: Fframwaith Archwilio Newydd Drafft – Darllennodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG lythyr maith gan Bennaeth Adran Archwilio Estyn, a dderbyniwyd mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan SACRE ar y fframwaith archwilio newydd. Roedd nifer cyfyngedig o gopïau ar gael yn y cyfarfod. Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod ar hyn o bryd yn trafod gydag awdurdodau lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy ar ddulliau i'r SACREau gael gwybodaeth glir ar safonau a darpariaeth ar sail dreigl yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar adroddiadau archwilio. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynigion yn gofyn am gytundeb y tri awdurdod er mwyn cael cysondeb.

Eitem Rhif 6 – Cymdeithas SACRE Cymru – Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Denize Morris, Swyddog Pwnc ar gyfer Addysg Grefyddol, ACCAC, yn gofyn am

dri enwebai a fyddai'n barod i chwarae rhan yn y gwaith o arolygu dogfen gyfarwyddyd ar gyfer Adroddiadau Blynyddol SACRE. Unwaith y derbyniwyd enwebiadau, byddai un aelod o bob SACRE yng Nghymru yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r grwp. Yn ychwanegol at yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG, a oedd eisoes wedi ei enwebu fel cynrychiolydd, cynigiwyd bod y Cadeirydd, y Cynghorydd M M Jones a'r Is-Gadeirydd, Mrs M B Lloyd, yn cael eu henwebu i gynrychioli SACRE Sir Ddinbych. Cytunodd yr Aelodau gyda'r cynnig ac fe ***BENDERFYNWYD*** *YN UNOL Â HYNNY.*

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

## 3. AG YN YSGOL UWCHRADD PRESTATYN - CYFLWYNIAD

Cyflwynodd y Cadeirydd Mrs. Jackie Bateman, Pennaeth AG Ysgol Uwchradd Prestatyn, a'i chroesawu i'r cyfarfod. Roedd am roddi cyflwyniad ar ddarparu a chyflwyno Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Annerchodd Mrs. Bateman yr aelodau ac adrodd ar:-

- y trefniadau staffio gan gynnwys cymwysterau a phrofiad yr athrawon a oedd yn darparu AG;

- ymrwymiad rhan fawr o'r ysgol i AG gan gynnwys pedair prif ystafell AG a oedd wedi eu haddurno i gynorthwyo agweddau ysbrydol ac yn arddangos arteffactau, ynghyd â dau furlun yn dangos ffydd a'r nefoedd;

- un feirniadaeth yn adroddiad archwilio'r ysgol oedd diffyg AG gorfodol yn y chweched dosbarth. I ddelio gyda hyn, roedd gwersi AG gorfodol nawr yn rhan o astudiaethau cyffredinol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12. Roedd pynciau yn cynnwys ysbrydoldeb a rheolau a rheoliadau. Defnyddiwyd cerddoriaeth a fidios i wneud yr agweddau hyn yn berthnasol i'r disgyblion ac roedd athrawon yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwersi yn amrywio;

- roedd grwp mawr o ddisgyblion wedi dewis AG i lefel A gyda 15 allan o 17 yn parhau i AS Blwyddyn 2. Roedd pynciau yn cynnwys Moeseg Gristnogol ac Iddewiaeth ac fe drefnwyd digon o dripiau ysgol i'r myfyrwyr gan gynnwys un i Ganolfan Goffa'r Llosgaberth;

- roedd nifer fawr o ddisgyblion yn astudio AG i lefel TGAU gydag oddeutu 200 allan o 300 yn ymgymryd â chwrs AG. Roedd y maes llafur yn cynnwys pynciau megis moeseg feddygol a chynigiwyd

cyrsiau byrion fel bod gan bob disgybl gyfle da o gael cymhwyster AG pan yn gadael yr ysgol;

- Roedd disgyblion Blwyddyn 7 yn cael un wers 50 munud bob wythnos ac roedd Blynyddoedd 8 a 9 yn cael dwy wers 50 munud. Roedd y maes llafur ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn cynnwys cymysgiad o grefydd pur a gwaith thematig gyda llawer o ddysgu profiadol. Roedd y pynciau ar gyfer Blwyddyn 7 yn cynnwys Dathlu, Iaith Grefyddol a Chred; roedd Blwyddyn 8 yn delio gyda Christnogaeth ac Islam ac roedd Blwyddyn 9 yn cynnwys Hindwaeth, Athroniaeth Duw a materion cysylltiedig gyda iechyd (alcohol, rhyw, cyffuriau), a

- roedd amser cylch wedi ei gyflwyno yn yr ysgol ac roedd dysgu AG yn delio gyda materion eraill gan gynnwys goddefiad, empathi a sgiliau eraill megis cyfathrebu; roedd gwersi yn cynnwys tripiau i eglwysi a mannau eraill o arwyddocad crefyddol ac fe wahoddwyd grwpiau crefyddol lleol i weithio gyda'r disgyblion a cheisio gwneud y pwnc mor ddiddorol ag y bo modd i'r disgyblion.

Wrth gloi, gwahoddodd Mrs. Bateman yr aelodau i fynychu diwrnod agored yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ar ddydd Iau 23ain Hydref 2003 rhwng 4.00 p.m. - 6.30 p.m. a fyddai'n cynnwys amser cylch, portread o briodas Foslemaidd a myndiad i ystafell Gristnogol ac ysbrydol.

Cymerodd yr aelodau y cyfle i holi Mrs. Bateman ar amrywiol agweddau darpariaeth AG yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, gan gyfeirio'n benodol at: ddulliau o ddysgu disgyblion blwyddyn cyntaf gyda phrofiadau amrywiol o AG; ariannu tripiau ysgol; cyllid a ddyrannwyd ar gyfer llyfrau, deunyddiau ac adnoddau eraill; addoliad boreol; haeddiannau defnyddio bwyd wrth ddysgu AG; pwysigrwydd cysylltiadau gyda'r gymuned gan gynnwys clerigwyr lleol, Gideon a'r gymuned Foslemaidd. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd B. Blakeley, adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod y Maes Llafur a Gytunwyd yn argymell bod AG yn cyfrif am 5% o'r cwricwlwm a bod mwyafrif ysgolion Sir Ddinbych yn cydymffurfio gyda hynny. Mater i gorff llywodraethol pob ysgol oedd dyrannu adnoddau i feysydd pynciau.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Bateman am ei chyflwyniad difyr, llawn gwybodaeth, a oedd wedi rhoi cipolwg ar y gwaith mawr a oedd yn mynd rhagddo yn Ysgol Uwchradd Prestatyn yn cyflwyno Addysg Grefyddol. Ategodd yr Aelodau y teimladau hynny a thalu teyrnged i safon ac amrywiaeth dulliau dysgu yn yr ysgol i sicrhau bod y pwnc yn berthnasol a diddorol i'r disgyblion.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod y cyflwyniad ar AG yn Ysgol Uwchradd Prestatyn gan Mrs. Jackie Bateman.*

Fel a ofynnwyd yn y gorffennol, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai'n gwahodd athro/awes Ysgol Iau i roddi cyflwyniad tebyg i'r aelodau mewn cyfarfod SACRE yn y dyfodol. Awgrymodd y Cynghorydd W. Roberts y gallai'r aelodau fod yn rhagweithiol yn eu grwpiau crefyddol eu hunain wrth danlinellu'r angen am athrawon AG arbenigol a hyrwyddo'r pwnc hwn ymhellach.

## 4. ACCAC: AROLWG ADRODDIADAU BLYNYDDOL 2000 - 2001 & 2001 - 2002

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG Arolwg o Adroddiadau SACRE Blynyddol ACCAC 2000 - 2001 & 2001 - 2002 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r aelodau eu hystyried.

Dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod SACRE Sir Ddinbych yn cael cyfeiriad cyson trwy gydol yr arolwg a'i fod yn falch o adrodd bod Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam y pedwar uchaf allan o saith yn y tabl archwilio ar gyfer Astudiaethau Crefyddol TGAU. Dymunodd egluro hefyd, yn wahanol i'r adroddiad, nad oedd Sir Ddinbych wedi adrodd nad oedd unrhyw archwiliadau ysgol wedi digwydd yn ystod 2000 - 2001, ond yn hytrach nad oedd SACRE wedi ystyried unrhyw archwiliadau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd oedi wrth gael yr adroddiadau archwilio.

Wrth ystyried y crynodeb yn manylu argymhellion ACCAC i SACRE roedd yn braf nodi'r argymhelliad cadarnhaol bod SACREau yn parhau gyda'u harferion da. Roedd y trefniadau newydd a oedd yn cael eu trafod a'u datblygu ar hyn o bryd o ran safonau monitro a darpariaeth yn deillio o'r newidiadau yn y broses achwilio yn debygol o gael effaith bositif yn y maes hwn. Cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG bod cyngor a HMS wedi eu derbyn ond cyfeiriodd at yr anhawster wrth fesur yn uniongyrchol effeithiolrwydd y cyfarwyddyd hwn. Serch hynny, roedd arolwg pum mlynedd Sir Ddinbych yn dangos y cynnydd mewn darpariaeth o ran AG ac felly nid oedd hyn yn faes i bryderu amdano.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg bod peirianwaith dan y trefniadau archwilio newydd i ysgolion werthuso eu perfformiad eu hunain ac adroddodd hefyd ar Gynhadledd Flynyddol Penaethiaid i'w chynnal ar 23ain Hydref 2003, pan fyddai trefniadau monitro yn cael eu

trafod. I gloi, talodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg deyrnged i waith rhagorol yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG a diolch iddo am hynny.

***PENDERFYNWYD** derbyn Arolwg Adroddiadau Blynyddol SACRE 2000 - 2001 a 2001 - 2002.*

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT SACRE

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ddrafft o Adroddiad Blynyddol SACRE Sir Ddinbych SACRE 2002 - 2003 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw), a oedd yn crynhoi gweithgareddau SACRE Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y Maes Llafur a Gytunwyd; Safonau mewn Addysg Grefyddol; Addoli Cyfun/Datblygu SMSC; darpariaeth HMS, ynghyd â nifer o faterion eraill.

Tywysodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau trwy'r adroddiad ac yna canmolodd Mrs. M.B. Lloyd ef a diolch i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am y gwaith a wnaeth ar ran SACRE Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft SACRE.*

## 6. DADANSODDI ADRODDIADAU ARCHWILIO

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar y sylwadau cadarnhaol a negyddol ar Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (SMSC) a archiliwyd mewn wyth ysgol rhwng Mehefin 2002 a Mawrth 2003 ynghyd â hanes cefndir byr pob ysgol.

Cafwyd archwiliadau yn yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol VP Borthyn, Rhuthun
- Ysgol Bro Famau
- Ysgol Pentrecelyn
- Ysgol Heulfre
- Ysgol Uwchradd Y Rhyl
- Ysgol Uwchradd Brynhyfryd, Rhuthun
- Ysgol Mair (Gymorthedig) Babyddol, Y Rhyl
- Christchurch, Y Rhyl

Rhoddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG grynodeb byr i'r Aelodau ar y darganfyddiadau parthed pob ysgol, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gewstiynau'r aelodau. Roedd yn falch o nodi

bod y sylwadau cadarnhaol yn fwy niferus o lawer na'r rhai negyddol yn adroddiadau archwilio pob ysgol gyda 169 cymeradwyaeth ar wahân. Rhaid rhoi credyd llawn i'r ysgolion ar eu llwyddiannau. Mewn perthynas ag Addysg Grefyddol, dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG nad oedd y darganfyddiadau ar gyfer Ysgol Mair ac Ysgol Borthyn wedi eu cynnwys oherwydd nad oedd yr Adran 23 ar gyfer Ysgol Mair wedi ei dderbyn mewn pryd i'w gynnwys yn yr adroddiad ac nid oedd AG wedi ei gynnwys ar gyfer Ysgol Borthyn oherwydd camddealltwriaeth rhwng yr Arolygwyr Adran 10 ac Adran 23.

Roedd yr aelodau yn falch iawn o weld y darganfyddiadau cadarnhaol yn yr adroddiad ac yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd i ddelio gyda'r nifer fechan o ddiffygion a nodwyd gan yr archwiliad. Yn unol â'r drefn arferol, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr ysgolion perthnasol yn eu llongyfarch ar eu hadroddiadau ac yn cynnig unrhyw wasanaeth o ran delio gydag unrhyw ddiffygion. Trafododd yr aelodau haeddiant pwysleisio'r canmoliaethau unigol ar gyfer pob ysgol yn y drefn hon ac yna:-

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

**7. CYMDEITHAS SACRE CYMRU**

Atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau iddynt dderbyn diweddariad llafar gan aelodau a fynychodd cyfarfod WASACRE a gynhaliwyd ar 27ain Mehefin 2003 yn eu cyfarfod diwethaf a dosbarthodd gopïau o'r cofnodion drafft o'r cyfarfod hwnnw er gwybodaeth. Adroddodd hefyd bod Susan Collingbourne wedi disodli Meinir Evans fel Ysgrifennydd WASACRE.

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG a Mrs M.B. Lloyd (Cadeirydd WASACRE) ar y cyd ar y cyfarfod cadarnhaol a fynychwyd ganddynt fel cynrychiolwyr WASACRE gydag ACCAC a'r Grid Dysgu Cenedlaethol ar baratoi a chynhyrchu deunyddiau ar wefan GDC er mwyn rhannu arferion da. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg at ddatblygiad gwefan Sir Ddinbych a dweud y byddai ysgolion yn cael eu hannog i rannu eu harferion da hwy ar y wefan hon.

Cyfeiriodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG hefyd at lythyr dyddiedig 25ain Gorffennaf 2003 gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DFES) ar newidiadau i ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (ITT) yn dyfarnu Statws Athrawon Cymwysedig. Yn weithredol o'r 1af Medi 2003 ni fyddai unrhyw fyfyrwyr o Loegr a oedd yn cael profiad dysgu yng

Nghymru yn cael statws athrawon cymwysedig, ac i'r gwrthwyneb. Cododd yr aelodau bryderon ynglyn â'r newidiadau hynny yn wyneb goblygiadau i ysgolion lle'r oedd cysylltiadau dros ffiniau siroedd ac fe fynegwyd pryderon hefyd mewn perthynas â'r diffyg ymgynghoriad gydag awdurdodau addysg lleol, ysgolion ac undebau. Ar ôl trafodaeth bellach, fe:-

***BENDERFYNWYD***:-

*(a) bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn mynegi pryderon a godwyd gan SACRE Sir Ddinbych mewn perthynas â'r newidiadau diweddar ar ddyfarnu statws athrawon cymwysedig a*

*(b) bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at Aelodau Cynulliad Sir Ddinbych ac Aelodau Seneddol mewn perthynas â'r diffyg ymgynghoriad ar y newidiadau i'r Rheoliadau Addysg.*

## 8. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cynhelid cyfarfod nesaf SACRE Sir Ddinbych am 2.00 p.m. ar ddydd Iau 26ain Chwefror 2004 yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau cadarnhaol i'r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.

******

# SYLWADAU AR Y CYNNWYS: ADRODDIADAU ARCHWILIADAU CYSAG (CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL) SIR DDINBYCH

## $26^{ain}$ Chwefror 2004

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Archwilydd Crefyddol</th><th>Archwilydd Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol.</th><th>Archwilydd Addysg Grefyddol.</th></tr>
<tr><td>Ysgol Gatholig Mair (Yn derbyn cymorth)</td><td>$28^{ain}$ – $31^{ain}$ Ionawr 2003</td><td>Mrs B P Hawthorn Archwilydd Arweiniol.</td><td>Mrs K M Jones Archwilydd Cyswllt.</td><td>Adran 23</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol gynradd Gatholig yn y Rhyl yn derbyn Cymorth Gwirfoddol yw Ysgol Mair. Mae’r dalgylch yn ardal eang, llawer ohoni o dan anfantais economaidd. Roedd 411 o ddisgyblion yn yr ysgol. Daw 30% o’r disgyblion o gartrefi di-Gatholig. Mae 23% o’r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim a 95 disgybl (23%) wedi’u dynodi gydag Anghenion Addysg Arbennig, naw ohonynt gyda datganiad,. Mae nifer o grwpiau ethnig yn bresennol ym mhoblogaeth yr ysgol. Nid oes yr un disgybl yn dod o gartref lle mae’r Gymraeg yn iaith Gyntaf. Yn gyffredinol, mae’i disgyblion yn cynrychioli’ri ystod lawn o allu. Ar adeg yr Archwiliad roedd 16.3 cyfwerth athrawon llawn amser mewn swydd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol y Babanod Llanelwy Darpariaeth Wirfoddol</td><td>$4^{ydd}$ – $6^{ed}$ Mawrth 2003</td><td>Mrs A Dawson</td><td>Mrs A Dawson</td><td>Mrs A Dawson</td></tr>
<tr><td colspan="5">Daw’r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Babanod Llanelwy o’r ardal sydd agosaf at yr ysgol nad yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 25% o’r disgyblion yn byw yn y trefi neu’r pentrefi cyfagos. Mae 109 o ddisgyblion ar y gofrestr yn derbyn addysg llawn amser. Mae’r disgyblion yn cynrychioli’r ystod lawn o allu academaidd a chefndiroedd cymdeithasol. Daw’r mwyafrif o’r plant i’r feithrinfa gyda sgiliau iaith a sgiliau cymdeithasol sy’n is na’r cyfartaledd. Mae gan 10% o’r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim ac mae 9% o’r disgyblion gydag anghenion addysg arbennig. Mae bron iawn bob un o’r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Mae 3% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Eu prif ieithoedd yw Tamil, Sinhaleg, Canareg ac Arabeg.</td></tr>
<tr><td>Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr</td><td>$18^{fed}$ – $20^{ain}$ Mehefin 2003</td><td>Mr D G Evans</td><td>Miss J Davies</td><td>Miss J Davies</td></tr>
<tr><td colspan="5">Saif Ysgol Llanbedr, sydd dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, ger pentref Llanbedr. 73 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd gan gynnwys 8 o blant oedran meithrin. Mae’r disgyblion yn cael eu dysgu mewn tri dosbarth oedran cymysg – meithrin, derbyn a chyfnod allweddol 1, Blwyddyn 3 / 4 a Blwyddyn 5/ 6. Daw 75% o’r disgyblion o ardaloedd cymharol ffyniannus tra mae’r 25% yn weddill yn dod o gefndiroedd a ddisgrifir fel ddim yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Tua 5% o’r disgyblion sydd wedi’u cofrestru ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim. Nodwyd 9 disgybl gydag Anghenion Addysg Arbennig ac mae gan un ddatganiad o Anghenion Addysg Arbennig. Does yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Bro Elwern Corwen</td><td>18$^{fed}$ – 21$^{ain}$ Mehefin 2003</td><td>Miss D Morris</td><td>Mr J Blake</td><td>Miss D Morris</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae’r ysgol ym mhentref gwledig Gwyddelwern ger Corwen. Daw’r mwyafrif helaeth o’r disgyblion o’r pentref a’r ardaloedd cyfagos. Disgrifir yr ardal fel un nid yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Does dim o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 54 o ddisgyblion rhwng 3 – 11 oed ar y gofrestr ysgol. Maent yn cynrychioli ystod llawn o allu. Saesneg yw’r prif iaith a siaradir mewn 50% o gartrefi’r disgyblion ond mae’r ysgol yn sicrhau fod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog erbyn trosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Mae 6 disgybl ar y gofrestr Anghenion Addysg Arbennig gan gynnwys un gyda datganiad o Anghenion Addysg Arbennig.</td></tr>
<tr><td>Henllan</td><td>14$^{eg}$ –16$^{eg}$ Gorffennaf 2003</td><td>Mr E Lloyd Williams</td><td>Mrs M Meredith Jones</td><td>Mrs M Meredith Jones</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Henllan ym mhentref Henllan tua 3 milltir i’r de orllewin o dref Dinbych. Dysgir pob disgybl Cyfnod Allweddol 1 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn parhau â’u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg yn unol â dymuniadau eu rhieni. Roedd 100 o blant ar y gofrestr gan gynnwys 6 o blant meithrin. Mae’r ysgol yn disgrifio’r ardal fel un nad yw’r ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Tua 10% o’r disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau am ddim a nodir fod 15% gydag anghenion addysg arbennig gan gynnwys 3 sydd wedi cael datganiad. 6% o’r disgyblion sy’n dod o gartrefi ble siaradir Cymraeg fel iaith gyntaf.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bodfari</td><td>13$^{eg}$ –15$^{fed}$ Hydref 2003</td><td>Margaret Morgan</td><td>Cliff Brace</td><td>Cliff Brace</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Bodfari ym mhentref bychan Bodfari. 39 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr yr ysgol gan gynnwys 2 o blant meithrin rhan amser. Mae pob un disgybl yn dod o gartref sy’n siarad Saesneg. Daw 96% o’r disgyblion o gefndir gwledig. Mae gan 14% hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae 28% o’r disgyblion gydag anghenion addysg arbennig gan gynnwys 4 gyda datganiad o anghenion addysg arbennig.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Dewi Sant</td><td>17$^{eg}$ – 21$^{ain}$ Tachwedd 2003</td><td>Mr E Lloyd Williams</td><td>Mrs E R Davies</td><td>Mr E Lloyd Williams</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Dewi Sant ar gyrion tref glan y môr y Rhyl. Roedd 414 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 54 o blant oedran meithrin. Dywed yr ysgol fod tua thri chwarter yr ardal drigiannol y mae’r plant yn dod ohoni yn un na yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua chwarter o dan anfantais economaidd. 7% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae 53 wedi’u nodi gydag anghenion addysg arbennig a phedwar gyda datganiad anghenion addysg arbennig. Daw tua 12% o’r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.</td></tr>
</table>

## Dadansoddiad o Adroddiadau Archwiliad CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol) Sir Ddinbych 26ain Chwefror 2004

### 7 Ysgol

| Enw'r Ysgol | Dyddiadau yr Archwiliad | Archwilydd Crefyddol | Archwiliydd Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliedig. | Archwilydd Addysg Grefyddol. |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gatholig Mair (Yn derbyn cymorth) | 11eg –12fed Chwefror 2003 | Mrs B Hawthorn (Archwilydd Arweiniol) | | Mrs KM Jones Adran 23 |
| Ysgol y Babanod Llanelwy Darpariaeth Wirfoddol | 4ydd-6ed Mawrth 2003 | Mrs A Dawson | Mrs A Dawson | Mrs A Dawson |
| Ysgol Eglwys yng Nghymru Llanbedr | 18fed – 20fed Mehefin 2003 | Mr D G Evans | Miss J Davies | Miss J Davies |
| Ysgol Gynraedd Bro Elwern Corwen | 18fed – 21ain Mehefin 2003 | Miss D Morris | Mr J Blake | Miss D Morris |
| Henllan | 14eg – 16eg Gorffennaf 2003 | Mr E Lloyd Williams | Mrs M Meredith Jones | Mrs M Meredith Jones |
| Ysgol Bodfari | 13eg –15fed Hydref 2003 | Mrs M E Morgan | Cliff Brace | Cliff Brace |
| Ysgol Dewi Sant | 17eg – 21ain Tachwedd 2003 | Mr E Lloyd Williams | Mrs E R Davies | Mr E Lloyd Williams |

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

***Crybwyllwyd mewn Materion Allweddol*** ***0 Ysgol***

**SYLWADAU POSITIF**

Darpariaeth ar gyfer Datblygu Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol **7 *Ysgol***

- Mae gan yr ysgol naws Gatholig dda iawn. Seilir darpariaeth datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn gadarn iawn ar gredoau a dysgeidiaeth y ffydd Gatholig. *(Ysgol Mair)*

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliedig y disgyblion yn dda ar y cyfan. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae datblygiad ysbrydol. moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliedig y disgyblion yn dda *(Bro Elwern)*
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliedig y disgyblion yn dda. *(Henllan)*
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliedig y disgyblion yn foddhaol. (Ysgol Bodfari)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliedig y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Talu sylw i / Hyrwyddo Gwerthoedd / Moesau Da / Parch</u> **7 Ysgol**

- Mae ysbryd o rannu a gofalu yn treiddio drwy fywyd a gwaith yr ysgol. *(Ysgol Mair)*
- Mae gan y disgyblion swynwyr aeddfed o degwch a gonestrwydd. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt ddiddordeb mawr yn eu gwaith. Maent yn dangos parch tuag at eu gilydd a'u hamgylchedd. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo safonau moesol uchel iawn. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Hyrwyddir safonau cadarn o safon uchel. *(Bro Elwern)*
- Mae'r disgyblion yn dangos parch at eiddo ac at reolau'r ysgol a'r gymdeithas ehangach (*Henllan*)
- Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu eu hamgylchedd a'u gilydd. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r athrawon yn hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau o safon uchel; maent yn dangos consýrn dros y disgyblion yn eu gofal. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Da a Drwg</u> **6 Ysgol**

- Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o beth sy'n iawn a beth sydd ddim *(Ysgol Mair)*
- Mae gan y disgyblion ran mewn ffurfio rheolau eu dosbarth a'r ysgol. Maent yn deall beth a ddisgwylir ohonynt ac yn cadw at hynny. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mewn cymuned drefnus mae'r disgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o'r gwahaniaethau rhwng da a drwg ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ymddwyn yn ystyrlon a goddefgar tuag at unigolion *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

- Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o dda a drwg a'r pwysigrwydd o barchu eraill. (Henllan)
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol o dda a drwg a thrafodir materion moesol yn ystod amser cylch ac mewn gwasanaethau (Ysgol Bodfari)
  Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd y gwir a gonestrwydd wrth hybu naws gyffredinol yr ysgol. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r disgyblion yn ywybodol o synwyr o dda a drwg. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Elusennau ac Achosion Da</u> **6 Ysgol**

- Mae cefnogaeth dda i elusennau. *(Ysgol Mair)*
- Mae'r disgyblion yn cefnogi achosion da. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae elusennau ac achosion da yn manteisio ar gefnogaeth y disgyblion a haelioni eu rhieni *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r disgyblion yn cyfrannu tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. *(Bro Elwern)*
- Mae'r disgyblion yn dysgu i gefnogi eraill sy'n llai ffodus na nhw ac yn cyfrannu tuag at lawer o wahanol elusennau. (*Henllan*)
- Mae'r disgyblion yn codi arian at elusennau. (*Ysgol Bodfari*)
- Mae'r ysgol yn cefnogi nifer o elusennau yn ystod y flwyddyn. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Ansawdd Perthynas</u> **6 Ysgol**

- Mae'n amlwg fod perthynas positif rhwng staff a disgyblion. *(Ysgol Mair)*
- Mae staff a disgyblion yn parchu eu gilydd yn briodol. Mae'r staff i gyd yn gweithio'n galed i gynnal perthynas bositif. *(Ysgol Mair)*
- Mae perthynas dda iawn rhwng y staff a'r disgyblion. Gwelir hyn yn yr awyrgylch ddysgu hapus ble mae'r staff a'r disgyblion yn parchu ei gilydd. Nid yw'r disgyblion yn ofni gofyn cwestiynau gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn fodlon eu helpu. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae perthynas dda rhwng y staff a'r disgyblion. *(Bro Elwern)*
- Mae perthnasau yn yr ysgol yn bositif ac mae pawb yn parchu eu gilydd. *(Henllan)*
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu hapus a chefnogol yn seiliedig ar berthynas dda rhwng oedolion a disgyblion. Mae'r disgyblion yn teimlo eu bod o werth fel unigolion ac mae hyn o gymorth i hybu eu hunan hyder. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r perthnasau rhwng y disgyblion ac aelodau o'r staff a rhwng y disgyblion eu hunain yn dda. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Amcanion a Naws Cyffredinol</u> **6 Ysgol**

- Mae awyrgylch o rannu a gofal yn yr ysgol. *(Ysgol Mair)*
- Ysgrifennwyd Datganiad Cenhadol rhagorol sy'n cynnwys sylwadau cymuned yr ysgol i gyd ac fe'i gwelir fel dogfen weithredol gan bawb. Mae'n cael ei arddangos o amgylch yr ysgol ac ym mhob dogfen berthnasol. *(Ysgol Mair)*

- Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae yno awyrgylch hapus ac amgylchedd cynnes gofalgar, sy'n ddiogel a saff. *(Ysgol Mair)*
- Mae ymrwymiad y staff at naws ofalgar yr ysgol i'w gymeradwyo. Mae yno synnwyr real o weledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rannu gan y Corff Llywodraethol a'r Prifathro. *(Ysgol Mair)*
- Mae amcanion Cristnogol yr ysgol yn cael eu hadlewyrchu'n ymarferol ac yn glir. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sy'n tyfu o sut i fyw bywyd Cristnogol fel unigolion ac fel rhan o'r ysgol a'r gymuned ehangach. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel, caredig a gofalgar. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel, caredig a gofalgar. *(Bro Elwern)*
- Mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol (*Bro Elwern)*
- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ble mae'r disgyblion yn dangos parch gwirioneddol at eu gilydd drwy chwarae teg, goddefgarwch a dealltwriaeth. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae teimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol ac o gynhwysedd o oedran cynnar. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o Diwylliannau a Thraddodiadau Eraill</u> **6 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gwybod am rai o brif grefyddau'r byd ac yn dathlu rhai o'u gwyliau crefyddol megis Diwali. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi fod llawer o ffyrdd o ddathlu digwyddiadau arbennig a bod pobl yn addoli mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r disgyblion yn parchu ac yn dysgu gan eraill yn eu hysgol sydd â chredoau, diwylliannau a chefndiroedd gwahanol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Hyrwyddir gwerthfawrogiad o ddiwylliannau eraill gan ymwelwyr â'r ysgol a thrwy ymweliadau ag orielau celf a pherfformiadau dramâu a thrwy eu hastudiaeth o bynciau megis daearyddiaeth, hanes ac addysg grefyddol. (*Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Darperir cyfleon priodol ar gyfer y disgyblion er mwyn iddynt werthfawrogi diwylliannau a thraddodiadau eraill. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mewn gwersi a gweithgareddau addysg grefyddol, telir sylw i grefyddau a chredoau eraill. Mae'r disgyblion yn dechrau gwerthfawrogi cyfoeth ac amrywiaeth diwylliannau a thraddodiadau eraill mewn gwersi Saesneg, cerddoriaeth, celf, daearyddiaeth a hanes. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Rhoddir sylw addas i ddiwylliannau a chrefyddau eraill fel rhan o'r cwricwlwm. *(Bro Elwern)*
- Ceir agweddau positif tuag at faterion aml – ddiwylliannol drwy'r cwricwlwm i gyd. Mewn addysg grefyddol mae'r disgyblion yn edrych ar elfennau Iddewiaeth a Hindwiaeth ac mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o gerddoriaeth wahanol ledled y byd ac o artistiaid Ewropeaidd. *(Henllan)*
- Mae'r staff yn helpu'r disgyblion i werthfawrogi diwylliannau heblaw rhai eu hunain; er enghraifft mae nhw'n gwrando ar brofiadau personol o

fywyd yn Affrica ac yn cyfathrebu gydag ysgolion eraill yn Ewrop. (*Ysgol Bodfari*)

- Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi gwahaniaethau ac amrywiaeth diwylliannol drwy waith ar y cwricwlwm, er enghraifft, mewn addysg grefyddol a daearyddiaeth a thrwy gysylltiadau gydag ysgol Iaith Wyddeleg yn Swydd Antrim a hefyd ymwelwyr â'r ysgol *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Y Cwricwlwm Cymreig</u> **6 Ysgol**

- Rhoddir pwyslais eithriadol o dda ar ddatblygu gwybodaeth disgyblion o'r ardal leol. Mae disgyblion yn dysgu Cymraeg o'r adeg y deuant i'r feithrinfa. Mae ymweliad â mannau o ddiddordeb yn gwella dealltwriaeth disgyblion o bynciau megis hanes a daearyddiaeth ac o'r diwylliant Cymreig. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd a digwyddiadau lleol eraill; mae nhw'n adnabod eu hardal leol yn dda. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn chwarae rhan sylweddol i alluogi disgyblion i werthfawrogi traddodiadau Cymru. Adlewyrchir y diwylliant Cymreig yn llwyddiannus yn y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol megis yr Urdd. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Hyrwyddir ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus drwy astudiaethau lleol a thrwy ddatblygu eu gwybodaeth o ffigurau amlwg o hanes Cymru. *(Bro Elwern)*
- Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i sefydlu'n dda iawn yn yr ysgol; mae disgyblion yn astudio gwaith artistiaid o Gymru a hanes a daearyddiaeth lleol yn ogystal â chymryd rhan mewn dathliadau Gŵyl Dewi a'r Urdd. (*Henllan*)
- Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei ddatblygu'n dda ac mae ganddo broffil uchel ym mywyd yr ysgol. Hyrwyddir treftadaeth a diwylliant lleol a chenedlaethol yn dda ac mae dysg y disgyblion yn cael ei wella drwy ymweld â mannau megis Theatr Clwyd, Castell Dinbych ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. (*Ysgol Bodfari*)
- Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus yn Eisteddfod leol a chylch yr Urdd ac aeth rhai ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Atgoffir y disgyblion o'u treftadaeth a'u hunaniaeth genedlaethol ac mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei gynrychioli'n dda mewn pynciau megis daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Cysylltiadau gyda / Ymwneud â'r Gymuned Leol</u> **6 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn cadw cysylltiad agos gyda'r plwyfi ac mae'r Offeriadon yn treulio amser yn yr ysgol. *(Ysgol Mair)*
- Paratoir at gyfer Sagrafen ym Mlwyddyn Tri gyda'r plwyfi sydd â chysylltiad â'r ysgol, Offeiriadon y Plwyfi, Cateceiddwyr y Plwyfi a'r ysgol drwy'r rhaglen 'Dyma Fi'. Mae hyn yn unol â'r Polisi Esgobaethol a dylai cyswllt gydag Offeiriadon a Chateceiddwyr y Plwyf leddfu'r pryderon a fynegwyd gan rieni. *(Ysgol Mair)*

- Mae cysylltiadau da rhwng yr eglwys gadeiriol ac eglwys y plwyf leol. Mae'r offeiriadon ac aelodau o gymuned yr eglwys yn cymryd rhan yn rheolaidd yn y gwasanaethau ac yn cyfrannu'n effeithiol at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o addysg grefyddol a thuag at eu datblygiad ysbrydol a moesol.
*(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae gwersi addysg grefyddol, a rhai gwersi eraill yn ogystal, â chyswllt agos yr ysgol gyda'r eglwys, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol ac yn cyfrannu'n rheolaidd at ddigwyddiadau lleol. Mae'r disgyblion yn cael mantais o ymweliadau rheolaidd gan y ficer a gwirfoddolwyr eraill â'r ysgol. *(Bro Elwern)*
- Mae disgyblion yn ymweld â'r gymuned. (Ysgol Bodfari)
- Mae cysylltiadau agos gyda'r gymuned leol hefyd yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Cydymffurfiad gyda Gofynion Statudol am Gydaddoliad</u> **5 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn cyfarfod â'r gofynion statudol ynghylch darparu gwasanaeth dyddiol o gydaddoli. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r ysgol yn cyfarfod â'r gofynion statudol ynghylch darparu gwasanaeth dyddiol o gydaddoli. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer addoliad dyddiol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol. *(Bro Elwern)*
- Mae'r ysgol yn darparu cydaddoliad dyddiol. (*Henllan*)
- Mae addoliad ar y cyd, yn y dosbarth yn bennaf, yn nodwedd ddyddiol gyda'r ysgol gyfan yn addoli gyda'i gilydd ar ddiwedd yr wythnos.
*(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Polisi ar Hiliaeth / Hyrwyddo Cytgord Hiliol</u> **5 Ysgol**

- Er nad oes gan yr ysgol bolisi ar gydraddoldeb hiliol mae ymarfer da'n sicrhau cytgord hiliol ac mae disgyblion yn cael eu hannog yn dda i barchu eraill beth bynnag fo eu cefndir. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Hyrwyddir ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb hiliol mewn trafodaethau a gweithgareddau perthnasol eraill. *(Bro Elwern)*
- Mae'r ysgol yn dilyn Polisi'r Awdurdod Unedol ar hiliaeth a chytgord hiliol yng nghyd destun ei pholisi cyfleon cyfartal. *(Henllan)*
- Mae gan yr ysgol bolisi cyfleon cyfartal sy'n talu sylw i rywiaeth a hiliaeth. (Ysgol Bodfari)
- Drwy weithredu polisïau cyfleon cyfartal a chyfartaledd hiliol yr ysgol sicrheir fod y disgyblion yn ymwybodol y dylent fod yn oddefgar tuag at wahaniaethau a gweithio gyda'u gilydd mewn cytgord. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Gweithgareddau / Cyfleon Allgyrsiol</u> **5 Ysgol**

- Hyrwyddir gwerthfawrogiad o ddiwylliannau eraill gan ymwelwyr â'r ysgol a thrwy ymweliadau ag orielau celf a pherfformiadau ddramâu a

thrwy eu hastudiaeth o bynciau megis daearyddiaeth, hanes ac addysg grefyddol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

- Cynhelir gweithgareddau allgyrsiol ar ffurf digwyddiadau cerddorol a chwaraeon ac mae eu gwaith gyda'r gymuned leol hefyd yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Hyrwyddir datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion ymhellach drwy weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys clwb cerdd a chlwb mathemateg a thrwy ymweld â mannau o ddiddordeb. *(Henllan)*
- Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth fawr o weithgareddau allgyrsiol. (*Ysgol Bodfari*)
- Mae gweithgareddau allgyrsiol hefyd yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Datblygiad Cymdeithasol / Rhyngweithiad / Sgiliau Rhyngbersonol</u> **4 Ysgol**

- Mae cryfder yn natblygiad cymdeithasol y disgyblion sy'n dda iawn. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r clwb cyn ac ar ôl ysgol yn cyfrannu'n bositif tuag at sgiliau cymdeithasol y disgyblion. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Gwneir cynnydd da gan y disgyblion mewn sgiliau cymdeithasol a rhyngbersonol (*Henllan*)
- Mae pob disgybl yn cymryd rhan mewn nifer dda o gyfleon ble maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth gymdeithasol. (Ysgol Bodfari)
- Mae amser cylch gyda'r rhai o dan bump yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau cymdeithasol ac mae'n ddylanwad positif arnynt. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae staff yr uned dan bump yn sicrhau fod digon o bwyslais ar rannu a chydweithio ac mae datblygiad cymdeithasol y plant yn dda iawn. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Nodweddion Cydaddoli</u> **4 Ysgol**

- Cynllunnir addoli gyda'r themâu'n dod o'r rhaglen 'Dyma Fi' a'r flwyddyn lwtirgaidd *(Ysgol Mair)*
- Mae'r disgyblion yn gwrando'n dda iawn yn ystod y gwasanaethau ac yn cymryd rhan gan dalu sylw mewn gweddïau a chanu emynau. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae disgyblion yn cyfrannu tuag at y gwasanaethau hyn a llwyddir i greu awyrgylch addolgar ac ysbrydol. *(Bro Elwern)*
- Mae'r ddarpariaeth yn amrywiol ond gyda nodweddion Cristnogol yn bennaf. Cyflwynir storïau Beiblaidd gyda negeseuon ynghylch eu gwerth moesol neu gymdeithasol. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Defnyddir gwasanaeth yr ysgol gyfan fel cyfle i ddathlu llwyddiannau ac i gyflwyno tystysgrifau i ddisgyblion am waith ardderchog yn ystod yr wythnos. *(Ysgol Dewi Sant)*

Datblygiad / Darpariaeth Moesol (a Chymdeithasol) 4 **Ysgol**

- Arweinir datblygiad moesol y disgyblion gan genhadaeth yr ysgol. *(Ysgol Mair)*
- Mae datblygiad moesol y disgyblion yn dda. Trafodir materion moesol a chymdeithasol yn ystod trafodaeth yn y dosbarth a elwir yn amser cylch. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda (Ysgol Bodfari)
- Mae datblygiad moesol y disgyblion yn dda *(Ysgol Bodfari*
- Mae datblygiad moesol a chymdeithasol yn dda iawn. *(Ysgol Dewi Sant)*

Cyfleon i Gydweithio / Cydweithredu 4 **Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn awyddus i helpu'u gilydd ac yn dangos caredigrwydd ac yn ystyriol o eraill. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r rhan fwyaf yn dda iawn am weithio mewn grwpiau bychan ac yn aeddfed ac yn ddoeth wrth aros eu tro a rhannu adnoddau. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae disgyblion yn cydweithio'n dda yn y dosbarthiadau ac yn chwarae'n hapus gyda'u gilydd yn ystod amser egwyl ac amser cinio *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda yn y dosbarth ac yn rhannu adnoddau'n deg. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio mewn parau a grwpiau bychan. *(Henllan)*
- Mae disgyblion yn gweithio'n dda gyda'u gilydd yn gyffredinol ac yn cynnal eu gilydd mewn gwahanol weithgareddau yn y dosbarth. *(Ysgol Dewi Sant)*

Cyfleon i fod â Chyfrifoldeb a Dangos Menter **3 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn awyddus i ysgwyddo cyfrifoldebau bychan yn y dosbarth. Penodwyd disgyblion Blwyddyn 2 fel cynghorwyr gan gyfarfod â'r staff ac aelodau'r gymuned megis y Faeres i annog ymddygiad da yn yr ysgol a gweithio er lles eraill drwy ofyn am eu barn a gweithio'n bositif i wella darpariaeth yr ysgol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r disgyblion yn frwdfrydig pan gant gyfle i ddangos menter ac yn ymateb yn bositif pan ofynnir iddynt ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Anogir disgyblion i fod yn annibynnol ac yn entrepreneuraidd, er enghraifft, wrth redeg y siop ffrwythau ac maent yn ymgymryd â gwaith monitro. *(Henllan)*

Datblygiad Ysbrydol **3 Ysgol**

- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda *(Ysgol Mair)*
- Mae'r disgyblion yn deall eu ffydd Gatholig yn dda. *(Ysgol Mair)*
- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Ceir cysylltiadau da rhwng yr eglwys gadeiriol a'r eglwys y plwyf leol. Mae'r offeiriadon ac aelodau o gymuned yr eglwys yn cymryd rhan yn

rheolaidd yn y gwasanaethau ac yn cyfrannu'n effeithiol at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o addysg grefyddol a thuag at eu datblygiad ysbrydol a moesol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

- Mae'r parch a ddangosir tuag at y disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a'u hunan ddelwedd. *(Bro Elwern)*

Ymateb y Disgyblion i Ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol **3 Ysgol**

- Roedd y disgyblion yn ymateb yn bositif wrth gael eu canmol gan yr ysgol ac i ganmoliaeth am ymdrech ac ymddygiad da. (Henllan)
- Mae'r disgyblion yn ymateb yn bositif i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. (Ysgol Bodfari)
- Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda. *(Ysgol Dewi Sant)*

Cyfleon i Ystyried **3 Ysgol**

- Mewn addysg grefyddol ac mewn rhai gwersi mewn pynciau eraill rhoddir cyfleon priodol i ddisgyblion feddwl am fywyd ac i ystyried agweddau o'u credoau a'u gwerthoedd eu hunain. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Anogir disgyblion i ystyried eu profiadau eu hunain a rhai pobl eraill a neulltir amser yn aml i fyfyrio'n dawel wrth gydaddoli. (Ysgol Bodfari)
- Rhoddir cyfle i ddisgyblion feddwl am bynciau a godir. Offrymir gweddïau personol mewn nifer o ddosbarthiadau gan roi'r rôl weithredol i ddisgyblion a rhoi cyfle am fyfyrdod ysbrydol. *(Ysgol Dewi Sant)*

Cyfraniad y Disgyblion i Gydaddoliad **2 Ysgol**

- Mae disgyblion yn cyfrannu tuag at y gwasanaethau hyn a chrëir awyrgylch o addoli ac o ysbrydolrwydd *(Bro Elwern)*
- Mae disgyblion yn aml yn cymryd rhan amlwg mewn cyflwyniadau. *(Henllan)*

Cyfraniad Cydaddoli i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol **2 Ysgol**

- Mae cydaddoli dyddiol yn cyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion *(Ysgol Mair)*
- Mae'r ysgol yn darparu cydaddoliad dyddiol sy'n cyfrannu'n bositif tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion. *(Henllan)*

Datblygiad Diwylliannol **2 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn datblygu'n dda yn ddiwylliannol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion *(Ysgol Bodfari)*

Staff / Oedolion fel Modelau Rôl **2 Ysgol**

- Mae ymrwymiad y staff i'w ffydd yn amlwg iawn wrth iddynt goleddu gwerthoedd yr Efengyl. *(Ysgol Mair)*
- Mae'r staff yn fodelau rôl da ac mae eu hagwedd yn gyson ac yn deg. *(Ysgol Bodfari)*

Ansawdd Cydaddoli **1 Ysgol**

- Mae gwasanaethau dyddiol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol ac yn helpu i ddatblygu ethos positif iawn sy'n amlwg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. (*Ysgol Bodfari*)

Cyfraniad Addysg Grefyddol i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol **1 Ysgol**

- Mae gwersi addysg grefyddol a rhai gwersi eraill a chyswllt agos yr ysgol gyda'r eglwys yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

Parchedig Ofn a Rhyfeddod **1 Ysgol**

- Anogir y disgyblion i archwilio rhyfeddodau'r byd o'u hamgylch ac ymblesera wrth ddarganfod a dysgu o'r newydd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth ymchwilio i drydan, roedd y disgyblion wedi cynhyrfu wrth ddarganfod y gallant gynhyrchu digon o drydan i oleuo bwlb trydan ar ôl darganfod sut i gwblhau cylched trydanol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

Cyfle i Ddatblygu / Ystyried eu Barn / Gwerthoedd eu Hunain **1 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gwybod fod y staff yn parchu eu syniadau a'u gwerthoedd. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

Gwaith Cyngor yr Ysgol **1 Ysgol**

- Mae gwaith yn gysylltiedig â chyngor yr ysgol yn rhoi rôl weithredol i ddisgyblion wrth werthuso darpariaeth yr ysgol. Mae nhw'n cynnig argymhellion ar gyfer gwella ac yn dangos cryn fenter. *(Ysgol Dewi Sant)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

Cyfleon i Ystyried **2 Ysgol**

- Nid oes ddigon o gyfleon i ddisgyblion ystyried a dod i ddeall y materion moesol a chymdeithasol sylweddol sy'n sylfaen i'r storïau hyn er mwyn datblygu eu credo eu hunain. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Nid yw'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd myfyrdod ysbrydol nac wedi datblygu ymwybyddiaeth addas o barchedig ofn a rhyfeddod. *(Ysgol Bodfari)*

Ansawdd Cydaddoli **1 Ysgol**

- Mae'r ddarpariaeth yn amrywiol *(Ysgol Dewi Sant)*

Ansawdd Perthnasau **1 Ysgol**

- Ddim bob amser yn cyfeirio at Gristionogaeth nac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ysbrydol. (*Ysgol Bodfari*)

Datblygiad Diwylliannol **1 Ysgol**

- Dylid ystyried dosbarthiad gwersi Addysg Grefyddol yn yr amserlen. *(Ysgol Mair)*

Polisi ar Hiliaeth / Cytgord Hiliol **1 Ysgol**

- Does gan yr ysgol ddim polisi ar gydraddoldeb hiliol. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

Parchedig Ofn a Rhyfeddod **1 Ysgol**

- Nid yw'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd myfyrdod ysbrydol nac wedi datblygu ymwybyddiaeth addas o barchedig ofn a rhyfeddod *(Ysgol Bodfari)*

Cynnydd y Disgyblion / Magu Hyder / Sgiliau **1 Ysgol**

- Dylid codi disgwyliadau ynghylch gwaith disgyblion a'u cynnydd mewn rhai dosbarthiadau yn y ddau gyfnod allweddol. *(Ysgol Mair)*

Cyfleon i Ddatblygu / Ystyried eu Barn / Gwerthoedd eu Hunain **1 Ysgol**

- Nid oes ddigon o gyfleon i ddisgyblion ystyried a dod i ddeall y materion moesol a chymdeithasol sylweddol sy'n sylfaen i'r storïau hyn er mwyn datblygu eu credo eu hunain. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

## ADDYSG GREFYDDOL *2 Ysgol*

*Materion Allweddol:*
*"Talu sylw i'r gwendidau mewn pynciau neu agweddau o bynciau ble mae safonau cyrhaeddiad y disgyblion yn foddhaol, hynny yw addysg grefyddol"*
*(Ysgol Henllan, Ysgol Bro Elwern)*

Safonau Cyrhaeddiad **6 Ysgol**

- Mae safonau Addysg Grefyddol yn dda (Cyfnod Allweddol 1) *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae Safonau Cyrhaeddiad yn dda yn y ddau gyfnod allweddol. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

- Mae Safonau Cyrhaeddiad yn dda yn y ddau gyfnod allweddol. *(Bro Elwern)*
- Mae Safonau Cyrhaeddiad yn foddhaol yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2. *(Henllan)*
- Mae Safonau Cyrhaeddiad yn dda yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2. (Ysgol Bodfari)
- Mae Safonau Cyrhaeddiad yn dda yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Storïau'r Beibl</u> **6 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gwybod storïau'r Beibl a damhegion megis 'y Ddafad Golledig' yn dda. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Yng Nghyfnod Allweddol 1 mae gan y disgyblion wybodaeth dda ynghylch llawer o storïau'r Beibl. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae plant Cyfnod Allweddol 1 yn deall y cyfraniad a wnaeth y disgyblion yn parhau gyda gwaith yr Iesu. Roedden nhw'n gallu enwi'r rhan fwyaf o'r disgyblion. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 fwy o wybodaeth fanwl ynghylch storïau o'r Testament Newydd a'r Hen Destament. Mae nhw'n dangos dealltwriaeth addas o rai o egwyddorion moesol y mae'r storïau'n ceisio'u hannog. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae gan disgyblion Cyfnod Allweddol 1 ymwybyddiaeth foddhaol o brif storïau'r Beibl gan gynnwys rhai o'r Testament Newydd. *(Bro Elwern)*
- Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae'r disgyblion yn gallu cofio prif ddigwyddiadau bywyd yr Iesu yn ogystal â rhai storïau o'r Hen Destament. *(Bro Elwern)*
- Magodd y disgyblion wybodaeth foddhaol am Gristnogaeth drwy wrando ar a darllen storïau'r Testament Newydd a'r Hen Destament. *(Henllan)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dysgu am fywyd yr Iesu. (Ysgol Bodfari)
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod am storïau poblogaidd y Beibl. Mae nhw'n cofio storïau Noa a Moses a saith pla'r Aifft o'r Hen Destament yn dda. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae'r disgyblion yn astudio damhegion yr Iesu ac yn ystyried sut mae gwersi'r Samaritan Trugarog a'r Mab Afradlon yn berthnasol i sefyllfaoedd heddiw. *(Ysgol Bodfari)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn trafod y Beibl ac yn cyflwyno eu hymatebion yn dda i ddigwyddiadau ym mywyd yr Iesu a rhai o gymeriadau'r Hen Destament hefyd trwy luniau a storïau byrion. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gristnogaeth</u> **6 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gwybod mai Cristnogaeth yw prif grefydd y wlad hon. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod arwyddocâd y gwyliau pwysicaf yn y calendr Cristnogol megis y Nadolig a'r Pasg. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

- Cynhyrchodd disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 bapur newydd yn seiliedig ar stori'r Pasg. Mae'r cyfraniadau a syniadau'n aml yn dda iawn. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae disgyblion mwy galluog Cyfnod Allweddol 1 yn ymwybodol o wyliau pwysicaf yr eglwys ac o arwyddocâd y gwyliau sanctaidd. Mae eu gwybodaeth ynghylch seintiau a rhai cymwynaswyr yn foddhaol. *(Bro Elwern)*
- Mae gan y disgyblion wybodaeth boddhaol am Gristnogaeth drwy wrando ar a darllen storïau'r Testament Newydd a'r Hen Destament. *(Henllan)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn deall prif ddigwyddiadau'r calendr Cristnogol ac yn ymweld ag eglwysi lleol i ddysgu am addoli a phwysigrwydd rhai seremonïau megis Bedydd. (*Ysgol Bodfari*)
- Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gallu disgrifio'n gyffredinol brif nodweddion bedydd Cristnogol ac yn dechrau deall ystyr symbolaidd dwr a'r wisg wen a ddefnyddir ar achlysuron o'r fath. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymchwilio'n effeithiol i ymarferion a seremonïau yr eglwysi Cristnogol. Maent yn paratoi cwestiynau wedi'u hystyried yn ofalus i'w cyflwyno i'r ficer neu'r gweinidog lleol. Mae llawer ohonynt yn disgrifio'n dda beth maent yn ei weld wrth ymweld ag eglwys neu gapel lleol, gan dynnu sylw at brif nodweddion yr adeiladau ac at y darpariaethau a'r arteffactau y tu mewn. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gysyniadau / Themâu Crefyddol</u> **5 Ysgol**

- Drwy storïau, mae'r disgyblion yn deall yn dda gysyniadau megis gonestrwydd, tegwch a'r gwir. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae dealltwriaeth disgyblion Cyfnod Allweddol 1 o egwyddorion megis cyfeillgarwch a gofalu am eraill yn dda. Mae nhw'n deall pwysigrwydd rheolau ac yn gallu dyfeisio rheolau sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae nhw'n ymwybodol o bwrpas gweddi. *(Bro Elwern)*
- Mae'r disgyblion yn trafod yn foddhaol y bobl sy'n eu helpu a'r rhai mae nhw'n ymddiried ynddynt yng ngoleuni storïau megis y Samariad Trugarog a'r Iesu'n cynorthwyo Bartimeus. (Henllan)
- Mae'r disgyblion yn deall fod angen rheolau mewn ysgol a thrwy drafodaeth, yn cyfrannu tuag at gôd ymddygiad. (Ysgol Bodfari)
- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn trafod perthnasau ar lefelau gwahanol sy'n ychwanegu at eu dealltwriaeth o werthoedd a chredoau megis rhannu, dangos parch a gofalu am eraill. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dysgu am bwysigrwydd gweddi mewn addoli ac yn ysgrifennu eu gweddïau eu hunain ar gyfer achlysuron arbennig megis Diolchgarwch ac yn myfyrio arnynt yn synhwyrol. *(Ysgol Dewi Sant)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynnwys Crefyddau ar wahân i Gristnogaeth **5 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymwybodol o grefyddau eraill ac yn gwybod am rai o'u harferion. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwybod fod gan grefyddau gwahanol eu lleoedd addoli eu hunain. *(Bro Elwern)*
- Mae gan y disgyblion dealltwriaeth foddhaol o agweddau o Iddewiaeth a Hindwiaeth. (*Henllan)*
- Mae'r disgyblion yn astudio agweddau o grefyddau eraill. Mae nhw'n gwybod fod arteffactau'n chwarae rhan bwysig mewn addoli a seremonïau rhai o'r prif grefyddau. (*Ysgol Bodfari*)
- Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae'r disgyblion yn gwybod bod gan bob un o'r prif grefyddau eu traddodiadau a'u harferion eu hunain ac y dylid dangos parch tuag at bobl eraill sy'n dal credoau crefyddol gwahanol. (*Ysgol Bodfari*)
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o agweddau'r grefydd Iddewig, gan gynnwys arwyddocâd y Sabath a gŵyl Sukkoth i deuluoedd Iddewig. *(Ysgol Dewi Sant)*
- Mae disgyblion Ym Mlwyddyn 5 yn dod i ddeall agweddau o'r grefydd Islam yn dda. Mae nhw'n gallu disgrifio prif nodweddion mosg ac mae nhw'n deall arwyddocâd y Pum Colofn, y Corân a Gwyl Ramadan i Foslemiaid pybyr. *(Ysgol Dewi Sant)*

Ymweliadau ag Eglwysi Lleol / Capeli / Lleoedd Addoli **4 Ysgol**

- Mae cysylltiadau agos gyda'r Eglwys Gadeiriol ac eglwys y Plwyf. Mae'r disgyblion yn ymweld â nhw'n aml neu'n cymryd rhan mewn dathliadau crefyddol. Mae'r ymweliadau hyn a chyfraniad yr offeiriadon ac aelodau'r gymuned grefyddol yn ychwanegu'n sylweddol at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'r pwnc ac at wybodaeth y disgyblion o hanes crefyddol Cymru. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae'r disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi ymweld â'r eglwys leol a'r eglwys yn y dref. Mae nhw hefyd wedi ymweld â chapel ac yn gallu cymharu'r ddau le addoli. Mae nhw wedi cynhyrchu peth gwaith da iawn ar eu trafodaethau ac ymchwil. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae'r disgyblion yn ymweld â'r eglwys leol yn rheolaidd ac mae ganddynt wybodaeth boddhaol o'r ffurfiau o addoli sy'n digwydd yno. (*Henllan*)
- Mae'r disgyblion hyn Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld â lleoedd addoli er mwyn dod i ddeall am gredoau a thraddodiadau allweddol y grefydd Gristnogol. Mae nhw'n cydnabod pwysigrwydd yr eglwys leol a'i harwyddocâd i'r gymuned leol. (*Ysgol Bodfari*)

Gwybodaeth / Ymwybyddiaeth o Bobl Enwog **4 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn trafod gwaith Florence Nightingale a Betsi Cadwaladr. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae disgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 wedi bod yn astudio bywyd Sant Pedr yn fanwl. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod am elfennau o fywydau pobl enwog a fu'n cynorthwyo eraill, er enghraifft Dr Barnardo. *(Henllan)*
- Mae'r disgyblion yn dysgu am fywydau rhai o'r prif seintiau gan gynnwys Dewi Sant. (*Ysgol Bodfari*)
- Mae'r disgyblion yn deall yn ddau bwysigrwydd hanesyddol a chrefyddol unigolion megis Dewi Sant a'r Esgob William Morgan. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o'r Angen i Ofalu / Rhannu</u> **3 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn parchu barn eraill ac yn dangos gofal a chonsýrn am eraill. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod pa mor bwysig yw helpu eraill ac yn gallu cyfrannu at drafodaeth ynghylch sut y gallen nhw helpu. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn deall pa mor bwysig yw gofalu a pharchu eraill. (Ysgol Bodfari)

<u>Dim Diffygion</u> **3 Ysgol**

- Does dim diffygion sylweddol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Does dim diffygion mawr yn yr un cyfnod allweddol. (Ysgol Bodfari)
- Does dim diffygion sylweddol. *(Ysgol Dewi Sant)*

<u>Cyfleon i Drafod Materion / Teimladau / Materion Moesol</u> **2 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn trafod gwerthoedd sy'n bwysig iddyn nhw gyda hyder cynyddol. Mae nhw'n defnyddio eu gwybodaeth ynghylch y Samariad Trugarog yn aeddfed wrth drafod agweddau pobl tuag at ei gilydd. *(Bro Elwern)*
- Mae disgyblion yn trafod ac yn meddwl am arwyddocâd storïau moesol o nifer o ffynonellau. (*Ysgol Bodfari*)
- Mae disgyblion yn gwybod fod arteffactau yn chwarae rhan bwysig mewn addoliad a seremonïau rhai o'r prif grefyddau. (Ysgol Bodfari)

<u>Cyfleon / Gallu i Fyfyrio am yr Effaith ar eu Bywyd</u> **2 Ysgol**

- Mae disgyblion yn trafod ac yn cysylltu'r cysyniadau hyn gyda'u profiadau eu hunain bob dydd. Mae'r disgyblion yn trafod beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg mewn gwersi ac yn defnyddio eu dealltwriaeth yn eu bywydau. Mae nhw'n gwybod fod eu geiriau a'u gweithredoedd yn effeithio ar eraill. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*
- Mae disgyblion yn astudio damhegion yr Iesu ac yn ystyried sut y mae gwersi'r Samairad Trugarog a'r Mab Afradlon yn berthnasol i sefyllfaoedd heddiw. *(Ysgol Bodfari)*

<u>Deall yr angen am / Dangos sensitifrwydd i Gredoau / Gwerthoedd Eraill</u> **2 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymwybodol y dylid parchu credoau ac ymarferion pobl eraill. *(Bro Elwern)*

- Mewn trafodaeth mae rhai disgyblion yn dangos sensitifrwydd a dealltwriaeth aeddfed o’r materion a godir. *(Henllan)*

Cyfleodd / Gallu i Fynegi Syniadau / Barn eu hunain **2 Ysgol**

- Mae gan unigolion yng Nghyfnod Allweddol 2 farn gadarn ynghylch syniadau moesol a gallant eu trafod yn hyderus. *(Bro Elwern)*
- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn dda am ystyried perthynas bersonol gyda disgyblion hyn yn dangos craffter wrth drafod ac ysgrifennu am emosiynau dynol megis hapusrwydd, eiddigedd ac unigrwydd gan gynnig enghreifftiau o’u profiadau eu hunain a rhai eraill. *(Ysgol Dewi Sant)*

Cyfansoddi / Ysgrifennu Gweddïau eu Hunain **1 Ysgol**

- Mae’r disgyblion yn gwybod sut i weddïo ac ysgrifennu eu gweddïau eu hunain i ddiolch i Dduw am y byd naturiol ac am eu teulu. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

Cyfraniad Addysg Grefyddol i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol **1 Ysgol**

- Mae’r disgyblion wedi datblygu’n dda yn ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol drwy ymweliadau gan weinidogion ac offeiriaid, ymweliadau â’r eglwys leol a’r eglwys gadeiriol yn ystod gwersi. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

Dealltwriaeth o’r Gymuned ac o Gyfrifoldebau Aelodau **1 Ysgol**

- Mae disgyblion hyn yn paratoi holiadur ynghylch eu bywydau ar gyfer ymweld â phobl hyn yn y plwyf. Mae nhw’n cwblhau’r atebion i’r cwestiynau ac yn cymharu’r canlyniadau. (Henllan)

Sylwadau ar Gydaddoli yn Adran Addysg Grefyddol yr Adroddiad **1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn dysgu ac yn canu nifer o emynau a chaneuon crefyddol. *(Ysgol y Babanod Llanelwy)*

Ymwybyddaeth o Ddylanwad Credo ar Ffordd o Fyw **1 Ysgol**

- Mae disgyblion iau Cyfnod Allweddol 2 yn ystyried effaith ei ffydd ar waith y Fam Teresa. Mae nhw’n cymharu natur ei haberth gyda gorchymyn Duw i Abram i offrymu ei fab. (*Henllan*)

Enghreifftiau o Gymru Heddiw / y Cwricwlwm Cymreig ac Addysg Grefyddol **1 Ysgol**

- Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwybod am fywyd Dewi Sant ac am arwyddocâd gwaith yr Esgob William Morgan. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*

Cynefindra gyda Thermau Technegol / Geirfa **1 Ysgol**

- Roedd sgiliau disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer defnyddio iaith grefyddol addas yn datblygu'n dda. *(Ysgol Dewi Sant)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Grefyddau heblaw Cristionogaeth **3 Ysgol**

- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ynghylch traddodiadau ac arferion crefyddau eraill braidd yn arwynebol. *(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr)*
- Nid yw gwybodaeth disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ynghylch crefyddau heblaw Cristionogaeth wedi ei ddatblygu'n ddigonol. *(Bro Elwern)*
- Nid yw disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gwybod digon am grefyddau heblaw Cristionogaeth. *(Henllan)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Storïau'r Beibl **1 Ysgol**

- Nid yw nifer bychan o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn gallu cofio storïau cyfarwydd o'r Beibl. *(Bro Elwern)*

Perthynas y Cynllun Gwaith gyda'r Maes Llafur a Gytunwyd **1 Ysgol**

- Nid yw maes llafur yr Awdurdod Addysg Lleol y cytunwyd arno ar gyfer addysg grefyddol yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn rhaglen waith disgyblion Cyfnod Allweddol 1. (*Henllan)*

Defnydd o Arteffactau i Wella Addysgu a Dysgu **1 Ysgol**

- Gwybodaeth gyfyngedig oedd gan ddisgyblion y ddau gyfnod allweddol ynghylch arteffactau sy'n cael eu defnyddio mewn mannau addoli. *(Bro Elwern)*

Ansawdd / Amrywiaeth / Annigonolrwydd Gwaith Ysgrifenedig **1 Ysgol**

- Nid yw cofnodi gwaith wedi'i ddatblygu ddigonol yng Nghyfnod Allweddol 1 *(Henllan)*
- Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dangos mai arwynebol yw eu gwybodaeth ynghylch materion a chysyniadau crefyddol. *(Henllan)*